# Trefniadaeth Ysgolion Cynradd

Addysg

Atodiad A3

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfarfod o:** | Banel Adolygu Dalgylch Y Berwyn | **Dyddiad:** | 2 Rhagfyr 2009 |

| | |
|---|---|
| **Presennol:** | Liz Saville Roberts (LSR); Dewi R Jones (DRJ); Sharon Jones (ShJ); Alyson Evans (AE); W. Ann Jones (WAJ); Edwina Owen (EO); Bethan Emyr Jones (BEJ); Rhian Llwyd Dafydd (RhLlD); Llyr Edwards (LlE); Dylan Davies (DD); Rhiannon Dafydd (RhD); Dorothy Ann Jones (DAJ); Shan Mererid Edwards (ShME); Brian Llwyd (BLl); Aeron Prysor Jones (APJ); Nia Roberts (NR); Jano Owen (JO); Elwyn Edwards (EE); Dylan Edwards (DE); Dilys Ellis-Jones (DEJ); Gareth Llewelyn (DLl); Alan Evans (AE); Ann E Jones (AEJ); Sian Gwenllian (SG); J Blake (John Blake); Dewi Davies (DD); Seimon Williams (SW); Tony Bate (TB); Sion Llewelyn (SLl); Gwion Llwyd (GLl); Llinos Clwyd Owen (LlCO); Nia Wyn Morris (NWM); Rosalind Williams (RW). |

| | |
|---|---|
| **Ymddiheuriadau:** | Carole Burgess (CB); Teleri Llwyd Roberts (TLlR); Siwan Haf Davies (SHD); |

**Crynodeb gweithredol**
***(Nodi pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod, a nodi unrhyw bwyntiau sydd angen eu cyfathrebu i fforwm arall; gan bwy, erbyn pryd)***

| Rhif Eitem | Eitem/ Pwnc | Gweithrediad | Gan | Erbyn |
|---|---|---|---|---|
| **6.** | Modelau | Asesiad llawnach o'r modelau posibl | TB | 04-02-10 |
| | | | | |

| Cofnod Llawn | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif Eitem** | **Eitem/ Pwnc** | **Gweithrediad** | **Gan** | **Erbyn** |
| **1.** | **Croeso ac Ymddiheuriadau** | Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Dewi Jones.<br><br>Croesawyd Rosalind Williams o'r Esgobaeth i'r cyfarfod yn absenoldeb Carole Burgess. | | |
| **2.** | **Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf** | Nodwyd fod DRJ wedi cyfarfod gyda Carole Burgess o'r Esgobaeth a bod JB wedi bod yn hwyluso cyfarfod gyda phenaethiaid ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant i drafod manteision ac anfanteision cydweithio rhwng y ddwy ysgol ac efo Ysgol Y Berwyn. Nodwyd ei fod wedi bod yn gyfarfod buddiol ac roedd llawer o bethau cadarnhaol a all gael eu goresgyn petai penderfyniad i hyn. Roedd y ddwy ysgol yn teimlo mai lles y plant ddylai ddod gyntaf. Yn dilyn y cyfarfod gyda DRJ mae Carole Burgess am adrodd yn ôl i'r Esgob a nodwyd fod DRJ yn barod i'w gyfarfod yntau hefyd.<br><br>Mae papur Cymdeithas yr Iaith wedi ei gylchredeg i benaethiaid yr ysgolion.<br><br>Mae papur ar fodelau wedi ei ysgrifennu a bydd yn cael ei drafod ym mhwynt 6.<br><br>Cadarnhawyd y cofnodion fel rhai cywir a chytunwyd ar gynnwys Newyddlen 1. | | |
| **3.** | **Dadansoddiad Ystadegol** | Nodwyd fod cysylltiad wedi bod â'r ysgolion er mwyn gwirio a chadarnhau'r newidiadau.<br><br><u>Cytunwyd</u> fod y dadansoddiad yn adlewyrchu'r sefyllfa fel ag y mae. | | |
| **4.** | **Ymweliad â Siroedd Eraill** | Yn dilyn y cyfarfod diwethaf ble dangoswyd awydd i ymweld ag ysgolion mewn siroedd eraill trefnwyd ymweliad â Sir Benfro a Cheredigion.<br><br>Cafwyd adborth gan Jano Owen ar ran bawb a fu ar yr ymweliad:<br><br>Diolchwyd i Seimon Williams am drefnu'r ymweliad a nodwyd gwerthfawrogiad y penaethiaid o gael y cyfle i drafod a gweld ysgolion a sefyllfaoedd gwahanol.<br><br>Ymweliad cyntaf y dydd oedd i Ysgol Arberth ble | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cafwyd cyfle i siarad â'r pennaeth a gweld beth sydd ynglyn ag adeiladu ysgol newydd.<br><br>Ymwelwyd wedyn ag Ysgol Y Frenni, Crymych. Yma mae tair ysgol yn yr ardal wedi cau 7 mlynedd yn ôl ac wedi dod at ei gilydd ar un safle sydd yn cael ei rannu gydag Ysgol Y Preseli (uwchradd) mae hefyd nifer o adnoddau arall ar y safle fel canolfan hamdden, sinema, meithrinfa, canolfan gymunedol ayyb. Mae hefyd gyrsiau nos yn cael eu cynnal ar y safle a defnyddir yn helaeth gydag oddeutu 500 yn manteisio ar y cyrsiau nos. Mae'r safle ar agor rhwng 9-9.<br><br>Trafeiliwyd wedyn i Geredigion i ymweld ag Ysgol Bro Siôn Cwilt yn Synod Inn. Ysgol newydd yw hon sydd i'w hagor yn Ionawr 2010 ac wedi ei hadeiladu i gymeryd lle tair ysgol leol arall. Cafodd 5 ysgol yn yr ardal gynnig bod yn rhan o hyn, dewisodd 3 mai dyma oedd eu dewis a doedd y 2 arall ddim am ymuno. Gwelir erbyn hyn fod disgyblion yn dueddol o symud yn naturiol a'r pryder yw os aiff ffigyrau o dan 20 mae peryg y bydd y ddwy ysgol yma'n gorfod cau hefyd. Tua 6 milltir i ffwrdd mae Ysgol Ardal newydd yn barod i'w hadeiladu, hefyd yn ardal Tregaron mae bwriad agor Ysgol Gydol-oes.<br><br>Nodwyd ei fod wedi bod yn ymweliad buddiol iawn ac bod manteision ac anfanteision i bob cynllun. Nodwyd yn dilyn yr ymweliad yr hoffai'r ysgolion gael gwybod mwy am beth yw cydweithio, Ysgol Ardal a hefyd Ysgol gydol-oes.<br><br>Diolchodd DRJ am y cyflwyniad gan nodi fod aelodau'r Gweithgor Gwella hefyd wedi ymweld ag Ysgol y Preseli y llynedd.<br><br>Rhoddodd DRJ sylw i'r modelau yr hoffai'r penaethiaid gael gwybod mwy amdanynt:<br><br>Cydweithio: mae canllawiau Llywodraeth y Cynulliad yn dweud fod posibl cydweithio ar unrhyw batrwm ble mae awydd gwneud hynny. Mae hyblygrwydd i ardaloedd/ysgolion/cymunedau wneud fel sydd yn addas i'r ardal. Mae angen bod a meddwl agored i bob math o gydweithio.<br><br>Ysgol gydol-oes: mae'n bosibl mantiesio ar ddarpariaeth eang o gyfleusterau ac adnoddau.<br><br>Cyfeirwyd at y llythyr gan Dewi Davies ynglŷn ag archwilio model yn nhref y Bala. Croesawyd y | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | drafodaeth sydd eisoes wedi digwydd rhwng y ddwy ysgol gynradd yn y dref. | | |
| **5.** | **Materion Cyllidol** | Diolchodd HO am y gwahoddiad gan ymddiheuro mai heddiw y rhannwyd y papur cyllidol ond fel y gwyddai'r penaethiaid dim ond newydd dderbyn y rhagolygon yr oedd er mwyn cynhyrchu'r ddogfen.<br>Rhagolygon 2010-2011 – torri £550,000<br>2011-2012 – torri £300,000<br>2012-2013 – torri £500,000<br>Bydd felly angen gwneud toriad o dros £1.3m ar draws 103 ysgol cynradd y sir.<br>Nid yw darlun Gwynedd yn wir yn achos dalgylch y Berwyn - rhagwelir mewn 3 blynedd y bydd 38 yn fwy o blant yn nalgylch Y Berwyn a fydd yn arwain at gynnydd ariannol o £58,000.<br>Mae deddfau yn dweud fod rhaid i 70% o'r dyraniad fod ar sail nifer disgyblion. | | |
| **6.** | **Modelau Posibl** | Cyflwynodd TB y papur modelau gan egluro fod llawer o wybodaeth a modelau gwahanol ar y papur ac fod llawer ohonynt yn anrealistig. Mae 5 model sylfaenol i'r papur sef:<br>1. Dim newid<br>2. Cydweithio<br>3. Cau ysgol/ion<br>4. Ysgol Ardal<br>5. Ysgol Gydol Oes<br>Mae'r papur yn ceisio rhagweld beth all ddigwydd ar lefel dalgylch drwy ystyried beth all ddigwydd i ysgolion eraill y dalgylch petai un model yn cael ei hystyried ar gyfer un neu ddwy ysgol. e.e. petai awydd cydweithio rhwng Bro Tryweryn a Ffridd y Llyn, gellid ystyried nifer o opsiynau eraill a all gael eu cysidro ar gyfer gweddill yr ysgolion.<br>Rhannwyd i grwpiau i drafod y modelau gan feddwl beth fyddai'n realistaidd ac yn ddymunol.<br><u>Grŵp 1</u><br>Awydd gan Bro Tegid i drafod posibilrwydd o | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gydweithio gyda Beuno Sant.<br><br>Hoffi edrych ar opsiynau cydweithio yn y dref. Posibilrwydd cydweithio - ysgol gydol oes. Posibilrwydd o drafod gyda Y Berwyn a hefyd rhaid peidio ag anwybyddu'r ysgolion gwledig.<br><br><u>Grŵp 2</u><br><br>Mae cydweithio yn digwydd eisoes. Er mwyn datblygu hyn i fod yn llwyddiannus rhaid i athrawon allu cyd-ymwneud a'i gilydd. Posibilrwydd o gydweithio rhwng yr ysgolion gwledig a byddai'n fanteisiol pe bai cyfleusterau yn y dref yn agored i'r ysgolion gwledig ei defnyddio yn ogystal. Hoffi gweld darpariaeth 'ganolog' yn y dref gyda gweddill ysgolion y dalgylch yn gallu manteisio ar y cyfleusterau.<br><br><u>Grŵp 3</u><br><br>Mae cydweithio eisoes yn digwydd rhwng O M Edwards a Y Parc. Hoffi gweld hyn yn parhau gyda mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o adnoddau yn y dref. Technoleg ac arbenigedd ar gael yn ganolog yn y dref.<br><br><u>Grwp 4</u><br><br>Cydweithio Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn, defnyddio adnoddau ei gilydd ac Y Berwyn.<br><br>Datganwyd y byddai cael gwell syniad o beth yw cydweithio yn fuddiol. Nododd DRJ fod unrhyw ffordd o gydweithio'n bosibl, nid oes rhaid cau ysgol a'i hailagor fel yn y cynllun ffederal. Rhaid i gydweithio weddu i anghenion y cylch.<br><br>Datblygu model o gydweithio yn nhref Y Bala neu ysgol gydol oes i'r ardal gyfan.<br><br>Dalgylch y Bala yw'r lleiaf o ddalgylchoedd Gwynedd ac mae teimlad fod rhaid iddynt wneud popeth â'i gilydd.<br><br>Ni chefnogwyd nodel15 gan y grŵp. Does dim awydd gweld ysgolion gwledig yn cau. Nid yw canoli popeth yn gwella ansawdd bywyd gwledig. Nid yw'r safon addysg yn wael yn yr ardal.<br><br>Byddai diddordeb gwneud darpariaeth yn nhref y Bala, cynradd ac uwchradd, gyda'r ddarpariaeth ar gael i'r ysgolion gwledig. Hoffir gweld cydweithio yn cael ei ehangu. Mae gwahaniaeth barn ar ysgol | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gydol oes.<br><br><u>Modelau cyllidol</u><br><br>Aethpwyd dros y modelau cyllidol gan egluro beth fyddai'n digwydd i gyllid ysgol petai penderfyniad i'w chau. Eglurwyd beth fyddai'r arbedion posibl o fodelau 7, 8, 9, 11, 12, 14, 15 ac 16. Wedi methu costio cynllun 10. Os oes dymuniad mae posibl dod yn ôl i'r cyfarfod nesaf gyda chostau. Hefyd mae angen dysgu mwy am fodel ysgol gydol-oes oherwydd mae nifer o ffactorau i'w hystyried e.e. rheolaethol, rhannu cegin ayb. Mae syniad wedi dechrau ffurfio yng Ngheredigion ond ddim wedi ei lawn ddatblygu eto.<br><br>Angen modelu a chostio y modelau a ffafriwyd erbyn y cyfarfod nesaf, sef:<br><br>- Ysgolion y dalgylch i gydweithio.<br>- Ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant naill ai yn uno i greu ysgol ardal newydd neu yn uno gydag ysgol Y Berwyn i greu ysgol gydol oes gydag ysgolion Bro Tryweryn, Ffridd y Llyn, O M Edwards a'r Parc yn cydweithio.<br>- Ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant yn naill ai yn uno i greu ysgol ardal newydd neu yn uno gydag Ysgol Y Berwyn i greu ysgol gydol oes yn ogystal ag Ysgol Y Parc yn cau a'r disgyblion yn mynychu Ysgol O M Edwards. Ysgol Bro Tryweryn i gydweithio gyda Ffridd y Llyn ac/neu yr ysgol newydd yn nhref Y Bala.<br>- Ysgol Bro Tryweryn yn uno ag ysgolion tref y Bala i wneud cynllun Ysgol Ardal neu Ysgol Gydol Oes. Ysgolion O M Edwards, Y Parc a Ffridd y Llyn i gydweithio â'i gilydd neu a'r ysgol newydd yn nhref y Bala.<br>- Ysgol Bro Tryweryn yn uno ag ysgolion tref y Bala i wneud cynllun ysgol ardal neu ysgol gydol oes. Ysgol Y Parc i gau a'r disgyblion i fynychu ysgol O M Edwards. Ysgolion O M Edwards a Ffridd y Llyn i gydweithio a'u gilydd gyda'r ysgol newydd yn nhref y Bala.<br>- Ysgolion cynradd y dalgylch i uno a chreu un ysgol ardal newydd.<br>- Pob ysgol gynradd, ynghyd â'r uwchradd i uno i greu ysgol gydol oes newydd. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Nododd LSR fod rhai pobl yn bryderus o weld modelau nad oeddynt wedi'u cefnogi yn ymddangos yn y rhestr i'w costio. Esboniodd ei bod yn bwysig erbyn y cyfarfod nesa sicrhau dealldwriaeth lawn o oblygiadau pob model realistaidd, er bod cytundeb cyffredinol i ddiystyru rhai o'r modelau cychwynnol. Esboniodd eto mai rôl y Panel Adolygu Dalgylch oedd trafod amrywiaeth o opsiynau a datgan barn arnynt: yn y pendraw, cynghorwyr sir fuasai'n penderfynu'r union fodel neu fodelau i'w cymeradwyo ar gyfer ymgynghori statudol. | | |
| **7.** | **Unrhyw fater arall** | Oherwydd y gwaith modelu sydd angen ei wneud cyn y cyfarfod nesaf gofynnwyd i newid dyddiad y cyfarfod nesaf (21 Ionawr 2010) i 4 Chwefror 2010 er mwyn rhoi digon o amser i baratoi ar ei gyfer.<br><br>Penderfynwyd aros tan ar ôl 04/02/10 i gynnal y cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni. | | |
| **8.** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf** | 4 Chwefror 2010. | | |